

## Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol 1 Hydref 2022

### Adroddiad Cyffredinol

#### Y diffiniad o Aelodaeth Sylfaenol:

*Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei g'yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn o leiaf. Disgwylir iddo/i fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.*

**Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg**

**Tud. 2**

**Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

**Tud. 7**

## Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 21

Llwyddo: 7

Dim ond traean o'r ymgeiswyr a lwyddodd i gyrraedd y safon yn yr arholiad Sylfaenol y tro hwn. Serch hynny, rhaid pwysleisio bod sawl un arall wedi cyrraedd y safon angenrheidiol mewn un darn, ond heb lwyddo i'w chynnal ar hyd y papur. Atgoffir ymgeiswyr, felly, o bwysigrwydd ymdrechu i gyflwyno eu gwaith gorau yn y ddau ddarn er mwyn gwneud cyfiawnder â'u hunain. Ni ddisgwylir i waith ymgeiswyr fod yn ddi-fai ar y lefel hon; yn hytrach, mae'r marcwyr yn awyddus i weld addewid a'r gallu i drosi'r gwreiddiol gan ddefnyddio arddull briodol a chywir sy'n naturiol i'r iaith darged.

Braf, felly, oedd gweld enghreifftiau niferus o gyfieithu llwyddiannus ar draws y sgrïptiau, a ddangosodd allu i drosi'r gwreiddiol yn gywir ac yn effeithiol:

*When a public figure dies, the news can elicit a wide range of emotions.*

**Pan fydd ffigwr cyhoeddus yn marw, gall y newyddion ysgogi amrywiaeth eang o emosiynau.**

*You may feel a deep sense of loss...*

**Efallai y byddwch yn teimlo'r golled i'r byw...**

*...brings feelings of your own grief to the surface again.*

**...yn dod â'ch teimladau chi o alar i'r wyneb eto.**

*Perhaps you really admired them...*

**Efallai eich bod chi'n eu hedmygu nhw'n fawr...**

*Often there is extensive media coverage when a well-known person dies...*

**Pan fydd rhywun adnabyddus yn marw, yn aml bydd llawer o sôn amdano yn y cyfryngau...**

*Despite being the sixth richest country in the world...*

**Er mai hi yw'r chweched wlad gyfoethocaf yn y byd...**

*...either don't have enough money to buy sufficient nutritious food, struggle to get it because it is not easily accessible in their community, or both.*

**...un ai heb ddigon o arian i brynu bwyd maethlon digonol, neu'n cael trafferth cael gafael arno am nad yw'n hygyrch yn eu cymuned, neu'r ddau.**

*For many children, a free school meal could be the only guaranteed hot food they eat in a day...*

**I nifer o blant, mae'n bosibl mai pryd bwyd am ddim yn yr ysgol yw'r unig fwyd poeth maen nhw'n sicr o'i gael mewn diwrnod...**

*...which is lacking in nutrition...*

**...sy'n brin o faeth...**

*...dotted with...*

**...yn frith o...**

**...ambell i siop...yma ac acw...**

Mae'r enghreifftiau uchod yn cyfleu ystyr y testun gwreiddiol yn gywir mewn ffordd sy'n argyhoeddi yn yr iaith darged. Fodd bynnag, gwelwyd nifer o wendidau amrywiol ar draws y sgrïptiau.

Cafodd sawl un anhawster â'r cymal canlynol, a gwelwyd **efallai roeddech** droeon yn hytrach nag **efallai eich bod**, yn ogystal â methiant yn yr enghraifft olaf i gyfleu'r pwyslais yn iawn:

*Perhaps you really admired them...*

**Efallai roeddech chi'n eu hedmygu'n fawr...**

**Efallai yr oeddech yn wirioneddol yn eu hedmygu...**

Yn yr un modd, parodd y gystrawen **naill ai/neu** gryn drafferth i nifer o ymgeiswyr yn y frawddeg ganlynol:

*People living in food poverty either don't have enough money to buy sufficient nutritious food, struggle to get it because it is not easily accessible in their community, or both.*

**Mae gan bobl sy'n byw mewn tloedi naill ai ddim digon o arian i brynu bwyd maethlon digonol, neu yn ei chael hi'n anodd dod o hyd iddo am nad yw'n hawdd cael mynediad ato yn eu cymuned, neu'r ddau.**

**Naill ai, nid oes gan bobl sy'n byw mewn tloedi bwyd ddigon o arian i brynu digon o fwyd maethlon, neu maent yn cael trafferth ei gael gan nad yw ar gael yn hawdd yn eu cymuned, neu'r ddau.**

**Nid oes gan pobl sy'n byw mewn tloedi bwyd unai ddigon o arian i brynu digon o fwyd maethlon, maent yn cael trafferth cael gafael arno gan nad yw'n hawdd i'w gyrchu o fewn eu cymuned, neu'r ddau.**

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd prawfddarllen gwaith yn ofalus. Er y cydnabyddir mai'r lefel Sylfaenol yw hon, disgwylir i'r ymgeiswyr allu llunio brawddegau'n gywir, felly mae'n anodd esgusodi cystrawen drwsogl fel yn yr enghreifftiau canlynol:

*When a public figure dies...*

**Ar farwolaeth ffigur cyhoeddus...**

*...brings feelings of your own grief to the surface again.*

**...yn dwyn â theimladau am eich galar chi yn ôl i'r wyneb eto.**

*...empathise with how their friends or family may be feeling.*

**...dangos empathi gyda sut y gallai fod eu ffrindiau neu eu teulu yn teimlo.**

*Perhaps they were a similar age to you...*

**Efallai bod y person yn oedran tebyg i chi...**

**Efallai yr oedd yr oeddech yn agos at yr unigolyn mewn oed...**

*...sixth richest country in the world...*

**...chweched o wledydd mwyaf cyfoethog y byd...**

*...[a free school meal could be] the only guaranteed hot food they eat in a day...*

**...yr unig fwyd poeth y gellir bod yn sicr y byddent yn ei fwyta...**

**...gallai fod pryd o fwyd am ddim yn yr ysgol yw'r unig sicrwydd o gael bwyta bwyd cynnes mewn diwrnod...**

*...and families can sometimes be pushed into crisis...*

**...a gall arwain at deuluoedd weithiau mewn argyfwng...**

*Some people find they can only afford unhealthy food...*

**Gall rhai pobl fforddio prynu dim ond bwyd nad yw'n iach.**

*...access to two or fewer big supermarkets...*

**...mynediad at ddwy neu lai archfarchnad fawr...**

Gwelwyd nifer o wallau ystyr yn y darnau drwyddynt draw, er enghraifft:

*...the news can elicit a wide range of emotions.*

**...mae modd i'r hyn sy'n cael ei weld a'i glywed ar y newyddion ddod â nifer o emosiynau i'r golwg.** (enghraifft o orgyfieithu)

*Often there is extensive media coverage when a well-known person dies...*

**Yn aml, mae holl sylw'r cyfryngau ar y person sydd wedi marw...**

*...sixth richest country in the world...*

**...chweched wlad fwyaf cyhoeddus y byd...**

*...millions are struggling to access the food they need.*

**...mae miloedd yn ei chael hi'n anodd prynu'r bwyd sydd ei angen arnynt.**

*...living in food poverty...*

**...byw mewn tlodi...**

*...only guaranteed hot food...*

**...yr unig bryd poeth...**

*...during the school holidays...*

**...yn ystod hanner tymor...**

**...yn ystod gwyliau'r haf...**

*...lacking in nutrition...*

**...sydd â diffyg maeth ynddynt...**

*...health inequalities...*

**...anghydraddoldebau...**

*...disadvantaged people...*

**...pobl dlawd...**

Yn ogystal, gwelwyd enghreifftiau niferus o ddefnydd anaddas o eirfa ac idiomau amhriodol a amharodd ar y ddau ddarn:

*...public figure...*

**...enw cyhoeddus...**

*You may feel a deep sense of loss...*

**...profi ymdeimladau dwys o golled...**

**...teimlo ymdeimlad dwfn o golled...**

*...feel indifferent...*

**...teimlo'n niwtral...**

**...teimlo'n ddifraw...**

*...sadness around their death...*

**...tristwch o gylch eu marwolaeth...**

*...similar age...*

**...o amgylch yr un oedran...**

*...constant reminder...*

**...atgoffâd cyson...**

...taking care of yourself.  
...**edrych ar ôl eich hunain.**  
...**ofalu ar ôl eich hun.**

...pass on your condolences...  
...**gyfleu eich cydymdeimladau...** (mae'r unigol yn fwy naturiol)

...food poverty...  
...**tlodi o ran bwyd...**

...struggling to...  
...**cael ymdrech i...**

...term time...  
...**y tymor ysgol...**  
(mae **tymor yr ysgol** yn fwy naturiol)

...dotted with...  
...**wedi'u nythu...**

...**stocio...** (gwell fyddai **cadw** neu **gyflenwi**)

Ar ben hynny, siom oedd gweld llawer o wallau cywirdeb ar draws y ddau ddarn. Er nad oes disgwyl i sgrïptiau ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol fod yn ddi-fai, gwelwyd llw o wallau gramadegol elfennol yn amrywio o gamsillafu, hepgor yr acen grom, 'i' ymwthiol, cenedl enwau a chamdreiglo, ymhlith eraill:

...**drytach...**  
...**affeithio...**  
...**prydiau...**  
...**nail ai...**  
...**ddod a chysur...**  
...**normal i deimlo...**  
...**defnyddiol i ysgrifennu...**  
...**dau neu lai...** (archfarchnad)  
...**colled dwys...**  
...**y marwolaeth...**  
...**gwlad mwyaf cyfoethog...**  
...**os wnaethon...**  
...**gall teuluoedd cael...**  
...**gall deuluoedd...**  
...**sy'n alaru...**  
...**bwyta lai...**  
...**gofalu am eich hun...**  
...**sicrhau bod digon i'w blant fwyta...**  
...**y bwyd y byddai eu plant wedi derbyn...**  
...**y bwyd y byddai eu plant fel arfer wedi'u derbyn....**  
...**Dim ond bwyd gwael...a all rhai pobl ei fforddio...**  
...**pobl na all fforddio...**  
...**pobl nad yw'n gallu...**

Yn y darn cyntaf yn arbennig, roedd llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio 'eu' wrth gyfeirio'n ôl at enw unigol h.y. 'ffigwr cyhoeddus'. Er na chymeradwyir hynny, ni feirniadwyd ymgeiswyr yn rhy hallt os oedd cysondeb, ond roedd rhai'n cymysgu rhwng yr unigol a'r lluosog o fewn yr un paragraff neu hyd yn oed yr un frawddeg.

Yn ogystal, roedd amser y ferf wedi achosi cryn drafferth i lawer yn yr ail ddarn yn enwedig, ac fe'u gwelwyd yn drysu rhwng *can/gall* a *could/gallai*:

...*because they cannot...*

...*oherwydd na allent...* (*na allant* sy'n gywir)

Gwaetha'r modd, nid yw enghreifftiau tebyg i'r uchod yn anghyfarwydd ar y lefel Sylfaenol. Er y caniateir mân lithriadau ar y lefel hon, mae'r marcwyr yn asesu'r ddau ddarn yn eu cyfanrwydd ac yn awyddus i weld tystiolaeth o afael sicr ar hanfodion yr iaith. O ran y gwendidau cystrawennol a chywair, byddai'n syniad da i ddarpar ymgeiswyr ddarllen mwy o Gymraeg safonol er mwyn i'r patrymau priodol ddod yn ail natur. A gellid bod wedi osgoi'r rhan fwyaf o'r mân wallau gramadegol trwy brawfddarllen yn ofalus. Rhaid hefyd pwysleisio'r angen am wirio ystyr y cyfieithiad yn erbyn y gwreiddiol yn fanwl. Fel arall, mae perygl y bydd elfennau'n cael eu hychwanegu, eu hepgor neu eu camgyfieithu.

Anogir pob darpar ymgeisydd i fanteisio ar yr adnoddau sydd ar gael ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i ymarfer cyfieithu darnau tebyg i'r rhai a osodir yn yr arholiad ac ymgylfarwyddo â'r safon sy'n ofynnol. Byddai'n fuddiol iawn iddynt hefyd ddilyn yr e-weithdai a gynhelir yn rheolaidd er mwyn cael adborth manwl ar eu gwaith, a allai eu helpu i ddatblygu a chyflwyno eu gwaith gorau yn yr arholiad.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am bob cefnogaeth a chymorth.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg  
Tachwedd 2022**

## Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 6  
Llwyddo: 2

Chwe ymgeisydd yn unig a safodd yr arholiad y tro hwn, a chymysg oedd y safon. Mae rhywun yn ymwybodol nad yw'r rhan fwyaf o gyfieithwyr yn cael llawer o gyfle i gyfieithu i'r Saesneg ac roedd y diffyg profiad hwnnw i'w weld yn amlwg yn rhai o'r cyfieithiadau a gyflwynwyd.

Yn anffodus, dim ond dau ymgeisydd gyflwynodd waith oedd yn ddigon safonol i lwyddo. Wedi dweud hynny, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu da gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ond roedd gormod o waith anwastad, gyda rhai'n glynu'n rhy slafaidd at y gwreiddiol ac eraill yn cyfieithu'n rhy llac. Nid yw taro'r nodyn cywir bob amser yn rhwydd, ac unwaith eto diau mai diffyg profiad yn ymarfer y grefft oedd i gyfrif nad oedd rhai o'r ceisiadau'n darllen fel darnau gwreiddiol o ysgrifennu, sef nod pob cyfieithydd.

Arddull cymharol anffurfiol sydd i'r darnau, gyda'r ddau'n addasiadau o erthyglau mewn cylchgronau safonol ond poblogaidd. Y disgwyl felly yw bod y cyfieithiadau'n llifo'n rhwydd a bod yr ystyr yn glir ar y darlleniad cyntaf.

Cafwyd sawl enghraifft o gyfieithu cyhyrog a llyfn:

*Mae amser yn brin a'r gofynion yn drwm*  
***Time is tight and the demands are heavy***

*...mae cyfran helaeth o benderfyniadau meddyg teulu'n gwbl bosib eu gwneud yn ddiogel*  
***...it is perfectly possible for GPs to make a large proportion of their decisions safely***

*...mae ymgynghoriad ar waith*  
***...a consultation is underway***

*...chwyldro tawel ond cadarnhaol*  
***...a quiet but positive revolution***

*...ennyn ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd ymysg preswylwyr ac ymwelwyr*  
***...promote a sense of collective responsibility amongst residents and visitors***

*...annog dull mwy cynaliadwy o weithredu ar gyfer twristiaeth*  
***...encourage more sustainable modes of tourism***

Gosodir naws anffurfiol y darn cyntaf yn syth, gyda'r cwestiwn ar y dechrau'n cael ei gyfeirio'n uniongyrchol at y darllenydd:

*Pryd gwelsoch chi eich meddyg teulu ddiwethaf?*

Llwyddodd bron pawb i ymdopi â'r cwestiwn syml hwn. Fodd bynnag, frawddeg yn ddiweddarach, ceir cwestiwn arall, yn yr un arddull, ond cwestiwn sy'n dangos pwysigrwydd darllen y darn yn ofalus:

*Pryd cawsoch chi gyswllt â'ch meddyg teulu ddiwethaf?*

Aeth nifer ati i gyfieithu hwn yn dilyn patrwm y cwestiwn cyntaf:

***When did you last contact your GP?***

ond nid dyna sy'n cael ei ofyn. Gall cyswllt â'r meddyg fynd y ddwy ffordd. Cyfieithiad posibl i'r cwestiwn hwn fyddai:

***When did you last have contact with your GP?***

Gwahaniaeth bach o ran ystyr, ond un pwysig wrth gyfieithu.

Mae nifer o wallau ystyr eraill yn britho'r cynigion, sy'n dangos camddealltwriaeth o'r geiriau gwreiddiol, neu ddefnyddio'r gair anghywir:

*...a hynny'n cael ei amlygu*

***...and that is obviated***

*...cyfran helaeth o benderfyniadau*

***...most choices***

*...diwydiant twristiaeth llewyrchus*

***...bright tourist industry***

*...gwasanaethau a seilwaith lleol*

***...local services and groundwork***

Efallai nad yw'r rhain yn ymddangos yn wallau difrifol, ond o'u cyfuno â chystrawen sigledig a chywair iaith amhriodol, maen nhw'n dod yn fwy amlwg.

O ran cywair, ceir enghreifftiau o ddewis y gair anghywir yng nghyd-destun y darn e.e.

***family doctor*** yn lle ***GP*** am *feddyg teulu*

***organise to see a family doctor*** yn hytrach nag ***arranging to see a GP*** am *[t]refnu i weld meddyg*

*er budd pob claf* / ***for the welfare of every patient*** yn lle ***for the benefit of every patient***.

*ennyn ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd* / ***rouse a sense of shared responsibility***

Does dim rhaid cyfieithu pob gair bob tro e.e.

*y defnydd o dechnoleg ym maes iechyd*

***the use of technology in the field of health***, yn lle yn syml iawn, ***the use of technology in health***.

Un gair roddodd broblem i sawl ymgeisydd oedd 'hidlo':



*Mae'r ffaith bod cymaint mwy o 'hidlo' wrth drefnu i weld meddyg teulu erbyn hyn...*

'**filtering**' oedd y gair a ddefnyddiwyd gan y rhan fwyaf, sy'n gyfieithiad llythrennol, ac yn dderbyniol er nad yw'n dal ystyr y gwreiddiol yn llawn. Aeth un ymgeisydd mentrus ychydig yn rhy bell a defnyddio '**faff**', ac er bod y gair hwn efallai'n mynegi rhan o'r ystyr (o safbwynt y claf o leiaf), mae'r cywair yn rhy anffurfiol i'r darn. Un ymgeisydd yn unig gafodd ysbrydoliaeth, drwy feddwl y tu hwnt i eiriau'r frawddeg ac ystyried yr hyn sy'n digwydd yn y feddygfa, a tharo ar y gair '**triaging**'. Dyma enghraifft o gyfieithu deallus.

Y brif broblem o ran cystrawen oedd cyfieithu'n llythrennol a glynu'n rhy slafaid at drefn y geiriau gwreiddiol.

*Mae'r ffaith bod cymaint mwy o 'hidlo' wrth drefnu i weld meddyg teulu erbyn hyn...*

***The fact that there is so much more 'filtering' to organise to see a family doctor...***

*...daw peth gwybodaeth i'r amlwg wrth gwrdd â'r claf*

***...some information is indicated through seeing a patient***

*...mae dyletswydd arnom*

***...there is a duty on us***

Tra bo rhai yn glynu'n rhy agos at y gwreiddiol, rhaid gofalu peidio â chrwydro'n rhy bell chwaith. Er bod y cyfieithiad canlynol yn darllen yn rhwydd, mae'n addasiad neu grynodedb yn hytrach nag yn gyfieithiad o'r darn gwreiddiol:

*Mae'r ffaith bod cymaint mwy o 'hidlo' wrth drefnu i weld meddyg teulu erbyn hyn yn destun cryn gynnen, a hynny'n cael ei amlygu, yn filain iawn ar adegau, yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol.*

***Nowadays, the increased 'filtering' when arranging to see your GP is quite contentious and is sometimes harshly reported in the press and on social media.***

O ran cywirdeb y cyfieithu, llithriadau oedd y rhan fwyaf o'r gwallau, ond unwaith eto, o'u cyfuno â gwendidau eraill, gallai olygu bod y cyfanwaith yn anfoddfaol. Rhai enghreifftiau oedd:

*...[y] traethau a'r palmentydd*

***...the beeches and pavements***

*...iechyd meddwl y meddyg*

***...GPs mental health***

*...nid yw Cymru ar ei phen ei hun*

***...Wales aren't alone***

Doedd dim un o'r ceisiadau'n drychinebus, a llwyddodd pob ymgais i gynnwys addewid at y dyfodol. Unwaith eto yn y cylch arholi hwn, y cyngor i'r ymgeiswyr yw ymarfer yn rheolaidd, ennill profiad a dysgu canolbwyntio ar fanylion. Hynny, a 'gwrando' ar y cyfieithiad. Yn amlwg, ni allant ddarllen eu gwaith yn uchel yn yr arholiad, ond dylent ddarllen drosto a chlywed y geiriau yn eu meddwl; buan iawn y daw chwithdod mynegiant i'r amlwg.

Llongyfarchiadau i'r ddau a lwyddodd, a gobeithio y bydd y lleill hefyd yn parhau gyda'u hymdrechion.

I gloi, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am eu gwaith diwyd.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg  
Tachwedd 2022**